

Argymhellion	Ymateb	Timescale
<p>1. Er mwyn cynnwys y cyhoedd yn fwy a'i gwneud yn haws i gael gafael ar wasanaethau gofal heb ei drefnu, argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:</p> <p><b>a</b> Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth gyfathrebu genedlaethol i wella dealltwriaeth y cyhoedd o sut y gall gael gafael ar wasanaethau gofal heb ei drefnu yn y ffordd fwyaf priodol. Dylai'r strategaeth hon ganolbwyntio ar negeseuon lefel uchel sydd yr un mor gymwys ledled Cymru waeth beth fo'r modelau gwasanaethau gofal heb ei drefnu lleol ac o dan ba amgylchiadau y dylid defnyddio'r gwasanaethau hyn.</p> <p><b>b</b> Ar sail eu dadansoddiad o'r galw am wasanaethau gofal heb ei drefnu a chyfluniad presennol gwasanaethau, dylai'r byrddau iechyd newydd geisio</p>	<p>Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid 5 mlynedd sy'n nodi'r cyfeiriad y dylai'r GIG yng Nghymru ei ddilyn yn y dyfodol. Bydd y fframwaith yn cael ei ategu gan ystod o Raglenni Cenedlaethol, a Gofal Heb ei Drefnu yw un o'r rhaglenni hyn. Nod y rhaglen yw gwella ansawdd gwasanaethau gofal heb ei drefnu drwy ddull cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio, sy'n gydlynol a systematig. Y ddau Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Rhaglen yw Richard Bowen, Cyfarwyddwr Gweithredoedd, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Trevor Purt, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae siarter rhaglen genedlaethol, „<b>Gwella Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru: Dull Partneriaeth</b>” a Dogfen Cychwyn Prosiect wedi'u datblygu ar gyfer y rhaglen sy'n nodi nifer o themâu gwaith strategol allweddol, amcanion a champau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd yn genedlaethol. Bwriedir cynnal cyfarfod cyntaf y Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu yn gynnar ym mis Mehefin 2010.</p> <p><b>1a.</b></p> <p>Mae'r ymgyrch „Dewis Doeth” sydd â'r nod o gefnogi'r cyhoedd i wneud dewisiadau gwybodus am eu gofal eisoes wedi'i threialu yn y Gogledd, ac yn cael ei chyflwyno ledled Cymru.</p> <p>Cyfathrebu ac ymgysylltu yw un thema strategol y rhaglen genedlaethol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r GIG i ddatblygu strategaeth gyfathrebu genedlaethol i wella dealltwriaeth y cyhoedd a sut i gael mynediad i'r system. Bydd yn ceisio adeiladu ar y gwaith a wneir yn y Gogledd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu strategaeth gyfathrebu ddrafft</li> <li>• Ymgynghoriad anffurfiol ar y strategaeth</li> <li>• Gweithredu ledled Cymru</li> </ul>	<p>Rhagfyr 2010</p> <p>Tachwedd 2010</p>

<p>darparu pwyntiau mynediad at ofal heb ei drefnu sy'n adlewyrchu natur y galw yn well. Fel rhan o unrhyw broses o resymoli pwyntiau mynediad at y system yn y dyfodol, dylai byrddau iechyd ystyried y canlynol:</p> <p><b>i</b> a ddylai fod modd cysylltu ag un pwynt mynediad dros y ffôn bob awr o'r dydd a'r nos;</p> <p><b>ii</b> a allent sefydlu canolfan ar gyfer pob atgyfeiriad at wasanaethau gofal heb ei drefnu ac achosion o drosglwyddo cleifion rhwng rhannau o'r gwasanaeth gofal heb ei drefnu, gan ddefnyddio'r dechnoleg briodol i drosglwyddo galwadau a data cleifion yn uniongyrchol i wasanaethau gofal heb ei drefnu eraill;</p> <p><b>iii</b> a ddylai'r gwasanaethau gwahanol ddefnyddio system frysbenneu neu asesu gyffredin, gytûn a threfniadau llywodraethu clinigol cytûn;</p>	<p>Hefyd, mae Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol, dan arweiniad Dr Chris Jones, wedi'i datblygu a fydd, ymysg gwelliannau eraill, yn sicrhau mynediad amserol a phriodol i wasanaethau meddygfydd.</p> <p><b>1.b</b></p> <p><b>Cyfrifoldeb y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yw cyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adran 1b (i-iv).</b></p> <p>Bydd gan Lywodraeth y Cynulliad ddwy rôl:- (i) cefnogi a chynorthwyo'r GIG i gyflawni'r argymhellion (ii) rheoli perfformiad y GIG wrth gyflawni'r argymhellion a'i wneud yn atebol.</p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy weithio mewn partneriaeth â'r BILlau wedi datblygu'r gwaith hwn drwy ddarparu amrywiaeth ehangach o gefnogaeth, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Datblygu Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid 5 mlynedd i ddarparu cyfeiriad clir a strwythur cyflenwi;</li> <li>ii. Comisiynu'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (AGAAGI) i weithio gyda phob BILI ar opsiynau ar gyfer un pwynt mynediad</li> <li>iii. Comisiynu Hysbysu Gofal Iechyd i ddatblygu'r cofnod iechyd unigol yng nghymuned iechyd Gwent</li> <li>iv. Llunio strategaeth ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol „Gosod y Cyfeiriad” sy'n nodi model clir ar gyfer rhannu gwybodaeth a rheoli gofal yn gydlynol;</li> <li>v. nodi datblygiad system frysbenneu neu asesu cyffredin a threfniadau llywodraethu clinigol ategol fel mater allweddol i'w ddatrys yn genedlaethol o fewn y fframwaith cyflenwi cenedlaethol drafft <b><i>Drafft Gwella Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru: Dull Partneriaeth</i></b></li> <li>vi. Rhoi cyfarwyddyd i bob BILI i lunio cyfeiriadur gwasanaethau a ddiweddarir yn rheolaidd (gyda chymorth AGAAGI)</li> </ul> <p>Mae hefyd nifer o enghreifftiau sy'n arddangos y cynnydd sydd wedi'i wneud gan BILI</p>	<p><a href="#">Mehefin 2010</a></p> <p><a href="#">Parhaus</a></p> <p><a href="#">Dyddiad i'w gadarnhau</a></p> <p><a href="#">Cwblhawyd</a></p> <p><a href="#">Rhagfyr 2010</a></p> <p><a href="#">Parhaus</a></p>
--	--	---

<p><b>iv</b> a ddylid cynnal cyfeiriadur o wasanaethau a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn rhoi manylion am sut i gysylltu â gwasanaethau eraill i ddefnyddwyr gwasanaethau.</p>	<p>wrth roi'r argymhellion ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu cyfeiriadur o wasanaethau sydd ar waith yn BILI Abertawe Bro Morgannwg (BILI PABM).</li> <li>• Datblygu cofnod cleifion wedi'i rannu rhwng meddygfeydd Gofal Sylfaenol a gofal eilaidd yn BILI Aneurin Bevan (BILI AB).</li> <li>• Sefydlu ystafell reoli wedi'i rhannu rhwng Galw Iechyd Cymru, BILlau a gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddygfeydd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a Phencadlys y De-ddwyrain, Tŷ Vantage Point</li> <li>• Sefydlu ffrwd gwaith Un Pwynt Mynediad yn Rhaglen Bregus Gwent.</li> <li>• Mae Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys (BILIAP) yn datblygu un pwynt mynediad mewn cydweithrediad â darparwyr Iechyd, awdurdod lleol a Thu Allan i Oriau, Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a chydweithwyr yn y Trydydd Sector.</li> <li>• Datblygu a gweithredu canolfan gyfathrebu gan BILIP Betsi Cadwaladar (BILIP BC) a fydd yn cynnwys cyfeiriaduron lleol a fydd yn nodi'r holl wasanaethau sydd ar gael / amseroedd mynediad ac yn cynnig opsiynau gwahanol ar wahân i dderbyn i'r ysbyty. Bydd hyn yn creu un pwynt mynediad ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y rhanbarth.</li> <li>• Bydd BILI Hywel Dda yn cyd-leoli pob gwasanaeth y Tu Allan i Oriau. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu protocolau ar gyfer gwaith integredig i gynnwys brysbennu, asesu, croesgyfeirio a rheoli achos.</li> <li>• Datblygodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru strategaeth canolfan gyswllt glinigol.</li> <li>• Yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Gofal Strôc, mae</li> </ul>	<p>Gorff 2010.</p> <p>Ar waith</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Mawrth 2011.</p> <p>Rhagfyr 2010.</p> <p>Mehefin 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
---	---	---

	<p>Parafeddygon Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn defnyddio FAST (prawf wyneb, breichiau, lleferydd) i asesu a throsglwyddo cleifion a allai fod wedi dioddef Strôc neu Bwl o Isgemia Dros Dro (TIA).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn gweithio gyda Rhwydweithiau'r Galon Cymru i ddatblygu a gweithredu cronfa frysbenno gyffredin ar gyfer y gofal gorau posibl ar gyfer Syndrom Coronaidd Acíwt.</li> <li>• Fel rhan o'r „Ymgyrch 1000 o Fywydau“, mae Parafeddygon yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio offeryn cyfathrebu trosglwyddo ac asesu cyffredin o'r enw „SBAR; (sefyllfa, cefndir, asesu ac argymhellion)</li> <li>• Mae Galw Iechyd Cymru yn gyfrifol am gyfeirlyfr Cymru gyfan o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd ac ymyrraeth. Mae'r cyfeirlyfr ar gael ar wefan gwybodaeth iechyd defnyddwyr Galw Iechyd Cymru. Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio'n bennaf gan y cyhoedd, ond mae hefyd yn cael ei defnyddio gan weithwyr iechyd proffesiynol a'r trydydd sector.</li> <li>• Mae Galw Iechyd Cymru hefyd yn cynnal „allwyd“, sef system rheoli cynnwys am ddim ar y we (ar-lein). Mae hyn yn galluogi i weithwyr iechyd proffesiynol a chydweithwyr o'r trydydd sector fewngofnodi a dilysu gwybodaeth am eu gwasanaethau eu hunain sydd ar gronfeydd data Galw Iechyd Cymru. Yn syml, mae hyn yn gyfle i gyfeirlyfr cyfoes o wasanaethau fod ar gael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.</li> </ul> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i Gynllun Cyflenwi Lleol ar gyfer 2010/2011 pob BILI fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Bydd yn craffu ar y cynlluniau ac yn gwneud pob BILI yn atebol am eu cyflawni drwy gyfarfodydd rheoli perfformiad misol ffurfiol, a fydd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithredoedd, AIGC a'r broses adolygu flynyddol, a oruchwylir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, AIGC.</p>	<p>Achos busnes erbyn Mehefin 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Adolygu'n fisol</p>
<p>2. Dylai'r byrddau iechyd newydd achub ar y cyfleoedd yn eu cylch gwaith gofal sylfaenol a gofal eilaidd er mwyn</p>	<p><b>2.a - d</b></p> <p><b>Cyfrifoldeb y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yw cyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adran 2a. – d.</b></p>	

<p>gwella'r broses o integreiddio gofal heb ei drefnu, drwy er enghraifft:</p> <p><b>a</b> cynnal dadansoddiad lleol i dynnu sylw at yr ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu cael apwyntiadau gofal sylfaenol ar fyrder yn gyson;</p> <p><b>b</b> gweithio gyda meddygfeydd i sicrhau bod eu horiau gwaith yn unol â'r rhai a nodwyd yn y contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol;</p> <p><b>c</b> gan ddefnyddio canlyniadau eu dadansoddiad lleol, gweithio gyda meddygfeydd i ystyried diwygio eu trefniadau o ran cael gafael ar wasanaethau a'u horiau agor er mwyn diwallu anghenion eu cleifion cofrestredig yn well;</p> <p><b>d</b> adolygu darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau yn ardal y bwrdd iechyd, gan gynnwys ystyried natur ymatebol y dulliau presennol o gael ymweliadau cartref ar fyrder a ddefnyddir gan bobl.</p>	<p>Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy weithio mewn partneriaeth â'r BILlau, wedi datblygu'r gwaith hwn drwy ddarparu ystod eang o gymorth e.e.</p> <p>vii. ymgysylltu â'r Sefydliad Gofal Sylfaenol sy'n cael eu cefnogi gan yr adran iechyd, Cymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, i weithio gyda BILlau i weithredu eu gwaith o ran gwella mynediad i feddygfeydd a rheoli'r galw yn effeithiol. Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad gyflwyniad pellach gan y Sefydliad Gofal Sylfaenol ar y gwaith i bob BILl ym mis Chwefror 2009 a bellach mae wedi nodi BILIPBC a BILlAB fel posibiladau ar gyfer treialu gyda golwg ar ddechrau ym mis Medi 2010;</p> <p>viii. gorchymyn set ddata ofynnol ar gyfer unedau damweiniau ac achosion brys gan bob BILl ym mis Mawrth sy'n cael ei darparu bob wythnos. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dadansoddi'r data ac yn ei dychwelyd i bob BILl er mwyn iddynt allu amlygu ardaloedd gydag amrywiadau llawer uwch o gleifion „cerdded i mewn i unedau damweiniau ac achosion brys” a phresenoldeb mewn unedau damweiniau ac achosion brys y tu allan i oriau. Mae hyn yn galluogi i BILlau ddadansoddi ai diffyg mynediad i feddygfeydd/gofal sylfaenol sy'n gyfrifol am dderbyniadau amhriodol i unedau damweiniau ac achosion brys ac i gymryd camau priodol;</p> <p>ix. sefydlu Gweithgor i ddatblygu Fframwaith Gwella Perfformiad ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu. Mae'r grŵp wedi llunio fframwaith drafft ac wedi nodi cyfres o ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys mynediad, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu defnyddio i ddal BILl yn atebol;</p> <p>x. Lluniodd Llywodraeth y Cynulliad strategaeth ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol, „Gosod y Cyfeiriad” sy'n nodi model clir ar gyfer cyd-gyfathrebu a rheoli gofal yn gydlynol. Dylai hyn fod o gymorth wrth ddarparu'r mynediad priodol i ofal sylfaenol a chymunedol ar gyfer cleifion mewn ffordd gydlynol (yn ystod oriau a thu allan i oriau);</p> <p>xi. Yn 2008, cyflwynwyd y Gwasanaethau Estynedig Cyfeiriedig (DES) i alluogi BILlau i gomisiynu meddygfeydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol i aros yn agored y tu hwnt i oriau craidd os oes galw am hynny;</p> <p>xii. Nodi yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol y gofyniad cenedlaethol i BILlau adolygu oriau agor pob meddygfa i sicrhau eu bod o leiaf yn diwallu'r</p>	<p>Dechrau ym mis Medi 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Rhagfyr 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Yn cael ei adolygu</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	--	--

	<p>gofyn cytundebol i ddarparu ar gyfer anghenion rhesymol cleifion. Roedd Canllawiau Llywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd yn 2008 yn ategu hyn drwy ddisgrifio'r gofynion cyfreithiol ac egluro rôl a dyletswyddau BILlau. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng BILlau a'r Pwyllgorau Meddygol Lleol a daethpwyd i gytundeb ar oriau agor gofynnol a chyfyngu ar gau amser cinio a hanner diwrnod. Mae cau yn ystod y diwrnod gwaith arferol yn amlwg yn cael effaith ar ofal heb ei drefnu ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i leihau hyn;</p> <p>xiii. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal adolygiad o'r Arolwg Cleifion MORI blynyddol gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Feddygol Prydain a Chynghorau Iechyd Cymuned mae gwahanol ddull wedi'i ddefnyddio yn 2010. Mae'r arolwg bellach yn cael ei gynnal gyda mewnbwn a chefnogaeth gan Gynghorau Iechyd Cymuned. Mae meddygfeydd gwasanaethau meddygol cyffredinol wedi cael rôl bwysicach yn gweinyddu'r arolwg, gyda'r nod o sicrhau gwell ymrwymiad ac ymgysylltiad. Mae'r broses arolygu bellach yn cael ei goruchwyllo gan Gynghorau Iechyd Cymuned a fydd yn gweithio gyda meddygfeydd a BILlau i ddadansoddi'r canlyniadau a nodi meysydd ar gyfer eu gwella. Y bwriad yn y tymor hirach yw datblygu rôl Cynghorau Iechyd Cymuned yn monitro a hyrwyddo mynediad da a lledaenu arferion da;</p> <p>xiv. Nodi nifer o faterion i'w datblygu yn y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad o gontractau gofal sylfaenol, fel rhan o waith Dr Chris Jones, i bennu a yw'n diwallu anghenion a datblygiad gwasanaeth gofal sylfaenol sy'n cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng „yn ystod oriau“ a'r „tu allan i oriau“; a</p> <p>xv. Sicrhau cefnogaeth Cymdeithas Feddygol Prydain, a gyhoeddodd ei chanllawiau ar <i>Developing General Practice: Listening to Patients</i> ym mis Mehefin 2009. Nododd y canllawiau arferion da ac anogodd feddygon teulu i gyfathrebu â chleifion ar wasanaethau a mynediad iddynt. Mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith rhagorol ac mae arweinwyr y proffesiwn wedi ymrwymo iddo. Mae'n darparu man cychwyn da ar gyfer adolygu gwasanaethau a gall meddygfeydd a BIL ei ddefnyddio.</p> <p>Mae hefyd nifer o enghreifftiau sy'n dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud gan BILlau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	---	--

	<p>wrth roi'r argymhellion ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynlluniau BILI Cwm Taf i integreiddio gwasanaethau y Tu Allan i Oriau a gwasanaethau unedau damweiniau ac achosion brys drwy ddefnyddio adnoddau meddygon teulu.</li> <li>• Mae BILI Caerdydd a'r Fro yn treialu model gwasanaeth rheoli achos, gan weithio gyda meddygfeydd meddygon teulu, i nodi a chynorthwyo unigolion risg uchel a sicrhau eu bod yn cael cymorth amserol a phriodol yn y cartref</li> <li>• Mae BILIP ABM wedi trefnu grŵp rhanddeiliaid o weithwyr proffesiynol a chydweithwyr o'r sector gwirfoddol i archwilio a nodi modelau amgen o ddarparu ymweliadau cartref.</li> <li>• Bydd BILIAB yn adolygu gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau fel rhan o'i broses o Adolygu Gwasanaethau.</li> <li>• Hefyd, bydd darpariaeth ac effaith gwasanaeth y tu allan i oriau BILIAB yn cael eu hadolygu fel rhan o Fwrdd Gwella Gofal Heb ei Drefnu newydd.</li> <li>• Sefydlu gweithgor gan BILIPBC i adolygu darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau ledled y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys ychwanegu gwasanaethau a roddir ar gontract allanol i'r gwasanaeth GIG.</li> <li>• Mae ymarfer cwmpasu yn cael ei gynnal gan BILIPBC i bennu mynediad i ofal brys, gan gynnwys ymweliadau cartref. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i ategu gwaith Sefydliad Gofal Sylfaenol y Bwrdd.</li> <li>• Mae rôl „Ymarferwr Arbenigol“ yn un sy'n cael ei chyflwyno gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru drwy strategaeth glinigol a chynlluniau gweithlu. Mae hon yn rôl ehangach ar gyfer Parafeddygon a Nyrsys, a fydd yn</li> </ul>	<p>Dechrau ym mis Mai 2010.</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Dechrau ym mis Ebrill 2010.</p> <p>Dechrau ym mis Mai 2010</p> <p>Dechrau ym mis Mehefin 2010.</p> <p>Hydref 2010.</p> <p>Bydd y dadansoddiad cychwynnol wedi'i gwblhau erbyn 30 Medi</p> <p>2010 /2011</p>
--	--	---

	<p>ehangu eu sgiliau/gwybodaeth ym maes gofal heb ei drefnu. Nod y rôl hon yw cynyddu ymreolaeth glinigol a'r gallu i wneud penderfyniadau, sy'n golygu y gellir integreiddio ymarfer gyda gwasanaethau cymunedol eraill (osgoi derbyniadau diangen i'r ysbty). Mae'r gwaith recriwtio wedi dechrau.</p>	
<p><b>3. Er mwyn</b> gwella llwybrau gofal, argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:</p> <p><b>a</b> Drwy'r fforymau gofal heb ei drefnu, dylai'r byrddau iechyd newydd archwilio eu llwybrau gofal presennol er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau eu trefniadau presennol. Dylai'r archwiliadau ganolbwyntio ar y cyflyrau mwyaf cyffredin a brofir gan bobl leol a dylent ystyried nid yn unig y canlyniadau gofal pobl ond hefyd ymwybyddiaeth o'r llwybrau gofal ymhlith y cyhoedd ac, yn hanfodol, weithwyr proffesiynol yn y system gofal heb ei drefnu.</p> <p><b>b</b> Dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trefniadau i rannu'r gwersi sy'n deillio o'r archwiliadau hyn yn genedlaethol er mwyn ategu'r broses o rannu arfer da.</p> <p><b>c</b> Gan fanteisio ar eu cylch gwaith</p>	<p><b><u>3a a c.</u></b></p> <p><b>Cyfrifoldeb y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yw cyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adran 3a a 3c.</b></p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy weithio mewn partneriaeth â BILlau, wedi datblygu'r gwaith hwn drwy ddarparu ystod ehangach o gymorth, e.e.</p> <p>xvi. nodi datblygiad ystod o lwybrau gofal cenedlaethol ar sail tystiolaeth fel cam gweithredu o fewn y fframwaith cyflenwi cenedlaethol drafft „<b>Gwella Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru: Dull Partneriaeth</b>”</p> <p>xvii. Cefnogi datblygiad llwybrau clinigol mewn ystod o feysydd drwy'r rhaglen Targedau Deallus (strôc, y galon, iechyd meddwl a gofal heb ei drefnu) a'r rhaglen „Canolbwyntio Ar” ar gyfer gofal dewisol (e.e. Clust, Trwyn a Gwddf ac Orthopaedeg)</p> <p>Mae nifer o enghreifftiau sy'n dangos y cynnydd a wneir gan BILI wrth roi'r argymhellion ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae BILIP ABM wedi sefydlu Bwrdd Llwybr Clinigol, gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol dros Ofal Sylfaenol yn Gadeirydd. Y Llwybrau sydd ar waith ar hyn o bryd yw thrombosis gwythiennau dwfn, pyliau o isgemia dros dro, Strôc a STEMI. Nododd gweithdai diweddar 14 llwybr posibl pellach, gan gynnwys llid yr isgroen, rheoli clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, codymau a'r henoed a heintiau'r llwybr wrinol. Mae ffyrdd wedi'u nodi ar gyfer datblygu pob maes gwaith.</li> <li>• Mae gan BILI CaF nifer o brotocolau llwybrau cyfredol, er enghraifft: Torri gwddf y forddwyd, a phancreatit. Mae llwybrau ar gyfer Paediatreg, poen y frest a</li> </ul>	<p>2010/11</p> <p>Mehefin 2010</p> <p>Dechrau yn Ebrill 2010</p>



<p>ehangach, dylai'r byrddau iechyd newydd gydweithio i ddatblygu dull strategol o dreialu llwybrau gofal newydd ledled Cymru. Dylai'r llwybrau gofal hyn dargedu'r sefyllfaoedd cyffredin lle y darperir gofal heb ei drefnu a dylid cynnwys gwerthusiad cenedlaethol, dysgu a rennir a chyflwyno llwybrau gofal newydd yn gyflym fel rhan o'r broses.</p>	<p>thrombosis gwythiennau dwfn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd , gyda'r gwaith monitro yn cael ei ddarparu drwy eu rhaglen gwella rheoli gofal corfforaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cwm Taf wedi mabwysiadu Map Meddyginiaeth fel mecanwaith ar gyfer cefnogi datblygiad Llwybrau – sef y deg prif gyflwr ar hyn o bryd.</li> <li>• Mae Powys wedi sefydlu grŵp gwella Gofal Heb ei Drefnu. Mae'r gwaith sydd ar droed yn cynnwys sut rheolir cleifion drwy'r llwybrau STEMI a mynediad ar gyfer MIs. Gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, maent wedi datblygu Llwybr Codymau a'r Henoed yn ddiweddar.</li> <li>• Daeth adolygiad gan BILIAB o drefniadau ar gyfer rheoli cleifion clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint i ben ac mae wedi arwain at ddatblygu llwybr y cytunwyd arno ar gyfer Gofal Resbiradol. Bydd y model adolygu a datblygu hwn yn cael ei ffurfioli yn awr a'i gymhwyso i gyflyrau hirdymor eraill - bydd angen cytuno ar y rhaglen erbyn Mehefin 2010.</li> <li>• BILIPBC – Mae archwiliadau o lwybrau strôc, thrombosis gwythiennol, torri gwddf y forddwyd a phoen y frest ar y gweill a byddant yn hysbysu newidiadau mewn llwybrau drwy Fwrdd Strategol y BILI.</li> <li>• Mae BILI Hywel Dda wedi nodi'r deg prif gyflwr, y deg prif reswm am aildderbyn i'r ysbyty a'r deg prif reswm am drosglwyddo mewn ambiwlans. Bydd safonau a llwybrau cyffredinol yn cael eu mabwysiadu ar draws y Bwrdd Iechyd.</li> <li>• Mae cynllun archwilio cyfredol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn cynnwys y llwybrau cyfredol canlynol: <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Strôc</li> <li>2. Thrombolysis ar gyfer Syndrom Coroniadd Acíwt</li> <li>3. Hypoglycaemia wedi'i ddatrys</li> <li>4. Confylsiynau wedi'u datrys (Oedolion)</li> </ol> </li> <li>• Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi datblygu proses atgyfeirio i Barafeddygon gael mynediad i wasanaeth y tu allan i oriau meddygon</li> </ul>	<p>Mawrth 2011.</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Mehefin 2010</p> <p>Mehefin 2010</p> <p>Hydref 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Gorffennaf 2010</p>
---	---	---

	<p>teulu BILL Aneurin Bevan. Mae'r gwaith hwn yn awr yn cael ei ddatblygu gyda fforwm y tu allan i oriau meddygon teulu Cymru mewn ymdrech i sefydlu'r broses atgyfeirio ledled Cymru.</p> <p><b><u>3b.</u></b></p> <p>Mae gan Lywodraeth y Cynulliad lawer o drefniadau ar waith ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd o'r archwiliadau ar lefel genedlaethol i gefnogi arferion da:-</p> <p>xviii. Bydd gwaith „Canolbwyntio Ar" a'r Fforwm Cyfarwyddwyr Meddygol, sy'n cael ei Gadeirio gan Gyfarwyddwr Meddygol Llywodraeth y Cynulliad ac sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Meddygol yr holl BILLau, yn goruchwyllo'r ffordd y lledaenir y gwersi a ddysgir.</p> <p>xix. Mae gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a'r Uned Cyflenwi a Chymorth dîm penodol sy'n gyfrifol am gynorthwyo i wella gofal heb ei drefnu, a llyfrgell adnoddau ategol, ar ffurf canllawiau/llyfrynnau arferion gorau ac ati a thrwy wybodaeth a phrofiad y staff. Mae'r tîm yn rhannu syniadau o bob cwr o Gymru/gwledydd eraill gyda phob BILL ac yn sicrhau bod y gwahanol sefydliadau yn cyfathrebu â'i gilydd os oes cyfle i rannu dysgu ac arferion gorau.</p> <p>Bydd y rhain yn cael eu hategu drwy weithredu'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu a fydd yn creu nifer o fforymau lle gellir dysgu a rhannu. Mae'r rhain yn cynnwys:-</p> <p>xx. Bwrdd cenedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu; ac</p> <p>xxi. Ystod o grwpiau arloesi sydd â'r cyfrifoldeb o fynd i'r afael â themâu strategol penodol, e.e. llywodraethu clinigol a modelau gwasanaeth gydag arferion gorau a nodwyd.</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	---	--

<p><b>4. Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:</b></p> <p><b>a</b> Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynorthwyo sefydliadau iechyd a llywodraeth leol i ddatblygu systemau gwybodaeth cydgysylltiedig ar gyfer darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai'r trafodaethau ynghylch cydgysylltu systemau gwybodaeth gynnwys meddygon teulu a'u cynrychiolwyr fel prif ddeiliaid gwybodaeth am gleifion.</p> <p><b>b</b> Yn y byrdymor, dylai sefydliadau lleol ddatblygu a defnyddio dogfennau trafodion clinigol sy'n darparu manylion am daith claf drwy'r system gofal heb ei drefnu. Os caiff dogfennau trafodionclinigol eu defnyddio eisoes, dylai fforymau gofal heb ei drefnu wneud gwaith archwilio lleol er mwyn dadansoddi cryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol. Dylai'r fforymau</p>	<p><b>4a a 4c</b> Y ddwy brif system TGCh y mae'r Rhaglen Hysbysu Iechyd wedi'u datblygu i fynd i'r afael â'r mater o rannu gwybodaeth am gleifion yw:</p> <p>a) Y Cofnod Iechyd Unigol, sy'n sicrhau bod pob clinigwr yn gallu cael mynediad i wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghofnod y feddygfa.</p> <p>b) Porth Clinigol Cymru sy'n gallu darparu un pwynt mynediad i bob clinigwr i wybodaeth am gleifion sydd wedi'i chynnwys yn yr amrywiaeth eang o systemau ysbytai sy'n bodoli yn y GIG yng Nghymru.</p> <p>Mae'r ddwy system uchod wedi'u datblygu a'u profi ac maent yn cael eu gweithredu bellach ar safleoedd sydd wedi mabwysiadu'r systemau'n gynnar yn y GIG. Maent wedi'u cynnwys yn Fframwaith Gweithredu Blynyddol 2010/11, ynghyd â systemau TGCh eraill a fydd yn ofynnol i ddarparu amrywiaeth cynhwysfawr o wybodaeth am gleifion. Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi datblygu eu cynlluniau ar gyfer gweithredu'r rhain a bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy reoli perfformiad y Fframwaith Gweithredu Blynyddol.</p> <p>Mae dau brif faes lle mae angen datblygiadau newydd:</p> <p>a) Cofnod gofal cymdeithasol cryno sy'n cyd-fynd â'r Cofnod Iechyd Unigol. a) System amserlen genedlaethol y gellir ei defnyddio i reoli llwybrau gofal cleifion yn gyson ac yn safonol ledled y GIG yng Nghymru.</p> <p>Mae cynigion ar gyfer datblygu'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid 5 Mlynedd.</p> <p>Mae'r ffactorau a fydd yn pennu cynnydd o ran darparu mynediad ehangach i wybodaeth am gleifion yn cynnwys:-</p> <p>a) Lefel y buddsoddiad sydd ar gael ar gyfer datblygiadau TGCh drwy ddyraniadau cyllideb yn y dyfodol a phenderfyniadau am flaenoriaethau.</p>	<p>Bydd y dyddiadau cyflenwi yn amrywio rhwng BILlau ac ar hyn o bryd rydym yn cytuno arnynt fel rhan o'r broses gynllunio FfGB – ar ôl cwblhau hyn bydd yr amserlenni ar gael.</p>
---	--	---

<p>gydweithio ar lefel genedlaethol i rannu negeseuon yr archwiliadau hyn.</p> <p><b>c</b> Yn amodol ar werthusiad ffafriol, dylai'r Cofnod Iechyd Unigol gael ei gyflwyno ledled Cymru ac mewn amrywiaeth llawn o leoliadau gofal heb ei drefnu.</p>	<p>b) Gallu BILlau a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymdrin ag ailgynllunio prosesau ac arferion gwaith a fydd yn ofynnol i gefnogi darpariaeth gofal integredig, lle bynnag y darperir y gofal hwnnw.</p> <p>c) Mwy o bobl i dderbyn y model rheoli gwybodaeth sydd wedi'i ddatblygu drwy'r prosiect Cofnod Iechyd Unigol yng ngwasanaeth y tu allan i oriau Gwent. Bydd hyn yn pennu pa mor eang yw'r mynediad i wybodaeth am gleifion a phwy sy'n cael mynediad iddi. Y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol ar Reoli Gwybodaeth sydd â chynrychiolwyr proffesiynol eang sy'n gyfrifol am ddatblygiad polisi cyffredinol yn y maes. Mae Hysbysu Gofal Iechyd yn darparu gwybodaeth a phecynnau gweithredu safonedig i gynorthwyo BILlau sy'n gyfrifol am reoli cyfathrebu â gweithwyr clinigol proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â chydsyniad a mynediad.</p> <p><b>4b.</b></p> <p><b>Cyfrifoldeb y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yw cyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adran 4b.</b></p> <p>xxii. yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i weithio gyda phob BILl i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno dogfennau trafodion clinigol ledled Cymru. Fodd bynnag, nid menter tymor byr yw hon.</p> <p>Mae nifer o enghreifftiau sy'n dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud gan BILlau wrth roi'r argymhellion ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae nifer o ddogfennau trafodion wedi'u gweithredu gan BILlAB drwy fentrau fel Passing the Baton a 1000 o Fywydau (SBAR). Mae asesiad sylfaenol wedi'i gwblhau yn ôl safonau Passing the Baton. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn cyfarfod llif cleifion yn y dyfodol ym mis Mehefin 2010.</li> <li>• BILIPBC i fynd i'r afael â safonau mewnol ar gyfer ED a'u monitro a bydd mecanweithiau ar gyfer y broses hon o gasglu data yn cael ei hategu gan gaffael</li> </ul>	<p>Mehefin 2010</p> <p>Mawrth 2011</p>
---	---	--

	<p>Symphony ledled y Gogledd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lle mae dogfennau trafodion clinigol papur yn cael eu defnyddio yn rhanbarth BILIPBC, e.e. mae strôc, canlyniadau a digwyddiadau gydol llwybr y claf yn cael eu monitro a'u harchwilio.</li> <li>• Mae BILI Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda Hysbysu Gofal Iechyd ar y cyd â chyflenwyr clinigol meddygon teulu i rannu data clinigol, gan gynnwys canlyniadau. Maent yn cael eu harwain ar y cyd gan yr Is-adran Gymunedol a'r Bwrdd Gofal Heb ei Drefnu i sicrhau cysondeb.</li> <li>• Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn drafftio Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cofnod electronig cleifion (EPR). Bydd hyn yn darparu'r dechnoleg i drosglwyddo data cleifion yn uniongyrchol i wasanaethau gofal heb ei drefnu eraill. Mae'r gwaith hwn wedi golygu cydweithio agos â Hysbysu Gofal Iechyd, ac mae'n gysylltiedig â'r Cofnod Iechyd Unigol.</li> </ul> <p>Cytunir ar y wybodaeth i'w rhannu fel rhan o'r rhaglen genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu - fel y manylir yn 3b uchod.</p>	<p>Mawrth 2011</p> <p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p> <p>Mehefin 2010</p>
<p>5. Dylai'r byrddau iechyd newydd gymryd y llyw o ran astudio ac ailddylunio gwasanaethau gofal heb ei drefnu. Gan adeiladu ar gynlluniau cyflenwi lleol tymor byrrach sydd eisoes ar waith ac ystyried newidiadau yn y system ehangach, dylai'r byrddau iechyd:</p> <p><b>a</b> Ystyried cynnwys byrddau gwasanaethau lleol yn y mater trawsbynciol o ddatblygu system gofalheb ei</p>	<p><b><u>5a - f</u></b></p> <p><b>Cyfrifoldeb y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yw cyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adran 5a – f.</b></p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy weithio mewn partneriaeth â BILlau, wedi datblygu'r gwaith hwn drwy ddarparu ystod ehangach o gymorth, e.e.</p> <p>xxiii. Nodi gofynion gofal heb ei drefnu yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2010/2011;</p> <p>xxiv. Mae Llywodraeth y Cynulliad bellach yn derbyn cofnodion perfformiad wythnosol gan BILlau i nodi materion a bylchau mewn gwasanaethau;</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

<p>drefnu gydlynol; er engraifft, drwy ddarparu, dylai'r byrddau gwasanaethau lleol ofyn am adroddiadau rheolaidd ar gynnydd o ran datblygiad y system gofal heb ei drefnu o leiaf.</p> <p><b>b</b> Nodi'n glir y bylchau presennol o ran integreiddio rhwng y gwasanaethau amrywiol a'r ffordd y maent yn bwriadu mynd ati i integreiddio'n fwy a darparu gofal di-dor o safbwynt y dinesydd.</p> <p><b>c</b> Gweithio gyda'u partneriaid i gytuno ar gyfres o ganlyniadau dymunol y dylai systemau gofal heb ei drefnu eu cyflawni i'r boblogaeth a wasanaethir ganddynt.</p> <p><b>d</b> Heb ganolbwyntio ar dargedau cenedlaethol gorfodol, ystyried pa fesurau a fyddai'n dynodi i'r canlyniadau dymunol hyn gael eu cyflawni'n llwyddiannus. Dylai'r mesurau hyn arwain at newid y system, cael sêl bendith gweithwyr proffesiynol arweiniol, a chael eu defnyddio i</p>	<p>xxv. Gofyn am Gynlluniau Cyflenwi Lleol gan bob BILI ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sy'n mynd i'r afael â'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bylchau presennol mewn integreiddio rhwng y gwasanaethau amrywiol a sut maent yn bwriadu sicrhau gwell integreiddio a gofal di-dor o safbwynt y dinesydd;</li> <li>• cyfres o ganlyniadau dymunol y dylai'r system gofal heb ei drefnu eu cyflawni ar gyfer y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu;</li> <li>• pa fesurau fyddai'n nodi darpariaeth llwyddiannus y canlyniadau dymunol hyn; a</li> <li>• Sut byddant yn gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i ddarparu amrywiaeth eang o gymorth i bobl yn amserol er mwyn sicrhau nad oes bylchau o ran mynediad mewn gwasanaethau cymunedol a diffyg opsiynau ar wahân i'r ysbity.</li> </ul> <p>xxvi. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi sefydlu Rhaglen Genedlaethol o waith i ddatblygu ystod o Dargedau Deallus ar gyfer gofal heb ei drefnu. Ei nod yw nodi ystod ehangach o fesurau perfformiad sy'n ymwneud â mewnbwn, trwybwn, allbwn; gyda ffocws penodol ar nodi nifer fechan o fesurau canlyniadau ar gyfer gofal heb ei drefnu. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda ac mae cyfres ddrafft o fesurau perfformiad wedi'u llunio. Bwriedir cynnal cyfarfod pellach o'r Gweithgor Craidd ym mis Mai 2010 lle bwriedir eu mireinio yn barod ar gyfer eu treialu yn ystod yr haf.</p> <p>xxvii. Gorchymyn set ddata ofynnol ar gyfer unedau damweiniau ac achosion brys gan bob BILI ym mis Mawrth i'r darparu'n wythnosol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dadansoddi'r data ac yn ei ddychwelyd i bob BILI. Bydd hyn yn cynorthwyo BILlau o faint a natur y galw am wasanaethau cyfredol a gwasanaethau yn y dyfodol ac yn hysbysu eu trefniadau cynllunio/darparu gwasanaethau ar gyfer 2010/2011.</p> <p>Mae hefyd nifer o enghreifftiau sy'n dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud gan BILlau wrth roi'r argymhellion ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Medi 2010</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	---	--

<p>alluogi'r system i ddysgu wrth i fodolau newydd o ofal heb ei drefnu gael eu treialu a'u cyflwyno.</p> <p><b>e</b> Fel blaenoriaeth, llywio eu cynlluniau drwy astudio'r galw a pherfformiad y system gofal heb ei drefnu. Dylai'r data ystyried y canlynol o leiaf:</p> <p><b>i</b> graddau a natur gweithgarwch yn y gwasanaethau presennol;</p> <p><b>ii</b> graddau a natur y galw am ofal heb ei drefnu yng ngwasanaethau gofal heb ei drefnu'r sector iechyd a llywodraeth leol, gan ystyried y sefyllfaoedd y'u darperir ynddynt ac achosion sylfaenol y galw;<b>iii</b> dangosyddion ar gyfer ansawdd gofal heb ei drefnu gan gynnwys canlyniadau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau;</p> <p><b>iv</b> cael gafael ar wasanaethau, llif y system a natur unrhyw oedi neu achos diangen o drosglwyddo claf neu'r defnydd o wasanaethau penodol;</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan BILI(D) Powys Fwrdd Partneriaeth Gofal Heb ei Drefnu sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Gofal Sylfaenol, (darparwyr yn ystod oriau a thu allan i oriau), Awdurdodau Lleol, Cyngorau Iechyd Cymuned a'r Trydydd Sector, sydd i gyd yn gweithio'n barhaus i wella gofal heb ei drefnu ac atal derbyniadau diangen i'r ysbyty.</li> <li>• Mae darparu gwasanaeth di-dor yn ffrwd waith ar gyfer y prosiect uno rhwng Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Powys, gyda tharged ar gyfer gwasanaethau di-dor llawn.</li> <li>• Mae Byrddau Gwasanaeth Lleol Rhondda Cynon Taf (RhCT) a Merthyr Tudful wedi cytuno i gyfrannu'n allweddol at foderneiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddant yn arwain y ffordd ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac yn dymchwel rhwystrau i weithredu gwasanaethau mewn meysydd allweddol fel: <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Canolfannau cyfathrebu</li> <li>▪ Cludiant integredig</li> <li>▪ Rhwydweithiau lleol</li> <li>▪ Timau adnoddau cymunedol</li> <li>▪ Datblygu swyddi gweithwyr cyffredinol</li> <li>▪ Gwella cynllun gweinyddu meddyginiaeth yn y cartref</li> </ul> </li> <li>• Bydd BGLlau RhCT a Merthyr Tudful yn cefnogi'r cynlluniau hyn i helpu i gynnal annibyniaeth a gwella mynediad lleol i wasanaethau.</li> <li>• Bydd y bylchau cyfredol rhwng y gwasanaethau amrywiol a'r gwaith dilynol o wella'r integreiddio a nodwyd gan BILIPBC yn cael sylw ar draws y Byrddau Iechyd gan y Bwrdd Strategol Moderneiddio Gofal Heb ei Drefnu, a chan y Bwrdd Gweithredu Strategaeth Sylfaenol a Chymunedol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn 30 Medi 2010 drwy weithio'n effeithiol yn lleol rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.</li> <li>• BILIPBC – Data ar gyflyrau a gyflwynir, demograffeg, amddifadedd a mynediad i gludiant a gafodd eu coladu fel rhan o waith Strategaeth Glinigol Gogledd Cymru.</li> </ul>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Ebrill 2012</p> <p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p> <p>Medi 2010</p> <p>Gorffennaf 2010</p>
---	---	--

<p><b>v</b> costau gwasanaethau gofal heb ei drefnu drwy'r system gyfan waeth beth fo'r ffiniau sefydliadol.</p> <p><b>f</b> Gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau yn y sector gwirfoddol er mwyn cynyddu'r gefnogaeth amserol a roddir i bobl i sicrhau nad yw bylchau mewn pwyntiau mynediad at wasanaethau cymunedol na phrinder dewisiadau amgen i wasanaethau ysbytai yn arwain at achosion diangen odderbyn cleifion i'r ysbyty.</p>	<p>Dadansoddiad pellach o ddata sy'n ymwneud â phob gwasanaeth llywodraeth leol yn ofynnol a bydd Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion yn cytuno arnynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd Bwrdd Iechyd AB, drwy ei Is-adrannau Lleol, yn defnyddio mecanwaith y Byrddau Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i oruchwylio system gynhwysfawr o welliannau a datblygiadau a fydd yn cynnwys ffocws amlasiantaethol ar Gyflyrau Hirdymor a breuder.</li> <li>• Mae ystod o wasanaethau integredig eisoes wedi'u datblygu ac ar waith ar gyfer gofal canolraddol yn rhanbarth BIAB; Timau Asesu Clinigol Uwch (ACAT), Ymateb cyflym, tîm ail-alluogi, atal codymau (mae'r gwasanaethau hyn yn cydfynd â "Gosod y Cyfeiriad"). Bydd cyfleoedd pellach yn cael eu datblygu o dan y rhaglen Bregus.</li> <li>• Mae Hywel Dda wedi bod yn cyflwyno Timau Ymateb Acíwt ledled ardal y BI ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad gymeradwyo ei gynnig Buddsoddi i Arbed.</li> <li>• Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar ganlyniadau clinigol, ac mae wedi ceisio datblygu'r gwaith hwn drwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Fod y gwasanaeth ambiwlans cyntaf yn y byd i gymryd rhan yn yr ymgyrch ryngwladol „Ymgyrch 1000 o Fywydau”.</li> <li>○ Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad clinigol drwy'r Ymddiriedolaeth.</li> <li>○ Cyfrannu at ddatblygu targedau deallus – dan arweiniad cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad.</li> </ul> </li> </ul>	<p>Mehefin 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Mehefin 2010</p> <p>Parhaus</p>
--	--	---



<p>6. Er ei bod yn gywir i osgoi gorfanylu'r system gofal heb ei drefnu, dylai Llywodraeth y Cynulliad gynorthwyo'r byrddau iechyd newydd i wella eu dull strategol o ymdrin â gofal heb ei drefnu drwy:</p> <p><b>a</b> Yn dilyn y gwerthusiad o'r Strategaeth beilot ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol a datblygiad cynllun gweithredu, ystyried unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol yn nhempled y cynllun cyflenwi lleol er mwyn helpu byrddau iechyd a'u partneriaid i ddatblygu eu strategaethau gofal heb ei drefnu tymor canolig i hirdymor eu hunain. Ar gyfer y rownd nesaf o gynlluniau cyflawni lleol yn 2011, y prif ffactor a ddylai lywio'r cynlluniau hyn yw'r angen i'r byrddau iechyd newydd a'u partneriaid (yn enwedig gofal sylfaenol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, gwasanaethau ambiwlans a'r cyhoedd) feithrin dealltwriaeth lawer mwy cadarn</p>	<p><b><u>6a.</u></b></p> <p>a.) Mae <i>Gosod y Cyfeiriad</i> wedi nodi'r angen i gryfhau'r gwaith integredig ym maes gofal sylfaenol a chymunedol ac yn arbennig diwallu anghenion pobl hŷn fregus sydd ag anghenion gofal cymhleth. Yn yr adroddiad hwn mae Dr Chris Jones yn nodi'r angen i wella systemau cyfathrebu drwy ganolfan gyfathrebu ac un pwynt mynediad er mwyn cynorthwyo i ddatrys a chyfeirio ymholiadau.</p> <p>Hwyluswyd Ymarferion Pen Desg gan Grŵp Llywio'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol a digwyddodd hyn ym mhob un o'r 7 ardal BILI.</p> <p>Cynhaliwyd pob ymarfer dros gyfnod o tua 8 wythnos yn dechrau gyda digwyddiad briffio ar gyfer Arweinwyr allweddol yn y gymuned; yna digwyddiad rhanddeiliaid mawr (rhwng 50 – 100 o bobl) i rannu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ac archwilio dealltwriaeth leol a "pharodrwydd" ar gyfer newid;</p> <p>Yn y cyfnod nesaf bu rhanddeiliaid yn cynnal hunanasesiadau dros gyfnod o 4-6 wythnos o wasanaethau lleol gan ganolbwyntio ar elfennau allweddol model "Gosod y Cyfeiriad";</p> <p>Yn olaf, cynhaliwyd digwyddiad Rhanddeiliaid dilynol i werthuso'r hunanasesiadau a pha gamau y byddai angen eu cymryd i ddatblygu'r model yn y gymuned iechyd.</p> <p>Mae canlyniadau'r gwaith hwn wedi'u bwydo'n ôl i'r Byrddau Iechyd unigol ac wedi hysbysu'r "Siarter" ar gyfer rhaglen waith y Bwrdd Sicrwydd Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol sy'n nodi cerrig milltir allweddol ar gyfer y BILlau.</p> <p>Er mwyn bwrw'r maen i'r wal gyda'r gwaith hwn, mae'r Gweinidog dros Iechyd a</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Parhaus</p>
---	---	---------------------------------

<p>o'r galw, a ddefnyddir i ddatblygu eu cynlluniau a mesurau perfformiad lleol.</p> <p><b>b</b> Lle y bo'n briodol, cydgysylltu datblygiadau lleol mewn perthynas â darpariaeth gofal heb ei drefnu ar lefel genedlaethol, gan ystyried er enghraifft:</p> <p><b>i</b> Materion yn ymwneud â'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir gan y gweithiwr proffesiynol cywir. Yn arbennig, dylai Llywodraeth y Cynulliad hwyluso trafodaethau rhwng y byrddau iechyd, yr ymddiriedolaeth ambiwlans, a chyrrff sy'n cynrychioli gweithwyr gofal heb ei drefnu proffesiynol, er mwyn datblygu fframwaith clir sy'n fodd i ehangu cwmpas arfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal heb ei drefnu. Dylai'r fframwaith hwn ategu'r gwaith cenedlaethol o ddatblygu'r proffesiwn parafeddygol ond darparu cryn dipyn o hyblygrwydd lleol i ategu atebion wedi'u teilwra i</p>	<p>Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno a chytuno ar gynigion i sicrhau Bwrdd Sicrwydd, a fydd yn cyfeirio a chynorthwyo sut y cyflawnir <i>Gosod y Cyfeiriad</i>. Bydd y Bwrdd yn adrodd i'r Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Hefyd, bydd tri Grŵp Cyfeirio, gan gynnwys tîm allanol a thîm Polisi Llywodraeth y Cynulliad, yn sicrhau ymgysylltiad a chyfathrebu ehangach ledled y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG a darparu gwaith gweithredol mwy effeithiol.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Cynllun Gweithredu manwl.</p> <p>Cyfarfu Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar 15 a 16 Ebrill i drafod rhwystrau a ffyrdd ymlaen ar gyfer cyflawni <i>Gosod y Cyfeiriad</i>.</p> <p>Rhagor o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned yn enwedig ar reoli cyflyrau cronig - mae'r Model a Fframwaith Rheoli Cyflyrau Cronig yn nodi cyfarwyddiadau clir ar gyfer hyn ar sail gofal wedi'i gynllunio a'i reoli'n rhagweithiol yn y gymuned ar sail atal, ymyrraeth gynnar a hunanofal. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar sail cydlynu gofal yn well, timau integredig a meddygon teulu yn gweithio mewn clystyrau. Mae cyllid pontio wedi'i ddyrannu i gynorthwyo i ddarparu hyn ac mae gwasanaethau priodol wedi'u trosglwyddo o ysbytai i'r gymuned.</p> <p>Mae'r ddwy elfen o'r gwaith wedi nodi'r angen i weithio'n agos gyda gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Arddangoswyr Model a Fframwaith Rheoli Cyflyrau Cronig yn profi'r dulliau hyn ac mae'r canlyniadau cynnar yn awgrymu bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran cydgynllunio lleol i sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig a chydlynu gofal. Mae canlyniadau cadarnhaol hefyd yn codi yn y gwaith cyffredinol, yn enwedig o ran gostwng Derbyniadau Brys yn sgil cyflyrau cronig a lleihau Hyd Arhosiad.</p> <p><b>6b.</b></p> <p>Mae gan y rhaglen genedlaethol „<b>Gwella Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru: Dull Partneriaeth</b>” thema strategol benodol i fynd i'r afael â materion y gweithlu. Mae'r meysydd datblygu allweddol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu offeryn cynllunio gweithlu cenedlaethol</li> </ul>	<p>Mehefin 2010</p> <p>Parhaus</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Gorffennaf 2010</p>
--	---	--

<p>fodloni'r galw lleol.</p> <p><b>ii</b> Yr angen i ddatblygu fframwaith i gynorthwyo cyrff lleol i weithio tuag at weithredu bob awr o'r dydd a'r nos lle y bo'n briodol er mwyn ateb y galw, gyda mwy o barhad, cysondeba chydlynid rhwng gofal a ddarperir yn ystod oriau arferol a gofal a ddarperir y tu allan i oriau.</p> <p><b>iii</b> Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu dulliau o gynyddu hyblygrwydd gweithluoedd iechyd a llywodraeth leol, a'u haliniad, a ategir gan gyfres o safonau cenedlaethol a chynlluniau hyfforddi a datblygu priodol.</p> <p><b>iv</b> Wrth ymateb i argymhellion ein hadroddiad ar wahân, egluro rôl bosibl Galw Iechyd Cymru yn y dyfodol, ar lefel Cymru gyfan, yn y system gofal heb ei drefnu ehangach ac annog ei hintegreiddio'n well mewn gwaith cynllunio gwasanaethau lleol er mwyn gwella</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddi'r gweithlu</li> <li>• Darparu cymysgedd staffio/sgiliau priodol i ddiwallu'r angen</li> <li>• Datblygu cynllun gweithlu 10 mlynedd cenedlaethol.</li> </ul> <p><b>i.</b></p> <p>Mae nifer o ddatblygiadau penodol yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd ac yn ategu'r rhaglen genedlaethol, yn cynnwys:</p> <p>Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru wedi datblygu'r proffesiwn Parafeddygon yn sylweddol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Weithio gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a Phrifysgol Abertawe i sefydlu rhaglen israddedig ar gyfer pobl sy'n ymuno â'r gwasanaeth. Mae hyn yn unol â gofynion sicrhau ansawdd y fframwaith gofalwyr ar gyfer y proffesiwn Parafeddygon.</li> <li>• Gwella'r rhaglen fewnol gyfredol ar gyfer newydd-ddyfodiaid i Barafeddygaeth drwy ychwanegu modiwl astudio ychwanegol.</li> <li>• Parhau i ddarparu ei rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus sefydledig a gwella'r cynnwys drwy ychwanegu eitemau i'r cwricwlwm, sef Deddf Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a Deddf Amddiffyn Plant.</li> <li>• Datblygu llwybrau gofal ar gyfer Parafeddygon (e.e. codymau ymysg henoed, hypoglycaemia a chonfylsiynau wedi'u datrys).</li> <li>• Datblygu Rhaglen Ymarferwyr Arbenigol drwy strategaeth glinigol a chynlluniau gweithlu. Mae hon yn rôl ehangach ar gyfer Parafeddygon a Nyrsys, a fydd yn ehangu eu sgiliau / gwybodaeth am ofal heb ei drefnu. Nod y rôl hon yw cynyddu ymreolaeth glinigol a'r gallu i wneud penderfyniadau, gan olygu bod modd integreiddio ymarfer gyda gwasanaethau cymunedol eraill (osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty). Recriwtiwyd 11 o fyfyrwyr i'r rhaglen hon ym mis Tachwedd 2009, ac mae 5 bellach wedi cwblhau'r fframwaith cymhwysion llwyddiannus i ymarfer fel Ymarferwyr Arbenigol. Recriwtiwyd 16 ymarferwr arbenigol dan hyfforddiant ychwanegol ym mis Ebrill 2010, a bellach maent yn gweithio drwy eu fframwaith cymhwysio – gyda chefnogaeth y broses</li> </ul>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>2010/11</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Parhaus</p>
---	--	--

<p>llif cleifion drwy'r system.</p>	<p>oruchwylio glinigol a weithredwyd ar gyfer y rôl allweddol hon.</p> <p>Mae'r <i>Fframwaith Gyrfa Ôl-gofrestru i Nyrsio yng Nghymru</i> wedi'i lansio bellach ac mae'n darparu arweiniad i nyrsys unigol, sefydliadau addysgol a darparwyd gwasanaethau ar gynorthwyo a datblygu staff nyrsio ar bob lefel.</p> <p>Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad i nodi canllawiau ar gyfer nyrsys, bydwragedd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a pharafeddygon yng Nghymru i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio ar lefel uwch. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu'r canllawiau a nodir yn y <i>Fframwaith Gyrfa Ôl-gofrestru i Nyrsio</i>.</p> <p>Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi mynegi diddordeb yn yr egwyddorion a nodir yn y fframwaith a'r datblygiadau cysylltiedig mewn perthynas â rolau ymarfer uwch. Bydd uwch staff Llywodraeth y Cynulliad ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cyfarfod i drafod datblygu rôl staff gofal brys a sefydlu fframwaith gyrfa ar gyfer parafeddygon yng Nghymru.</p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod ei bod yn bwysig bod datblygu rolau yn y proffesiwn parafeddygon yn cyd-fynd â datblygu rolau mewn grwpiau proffesiynol eraill. Er enghraifft, dylai'r cysyniad o ymarferwr uwch fod â'r un ystyr ar draws proffesiynau nad ydynt yn rhai meddygol.</p> <p>Mae hyn eisoes yn digwydd ar gyfer ymgynghorwyr nad ydynt yn rhai meddygol, lle ceir cyfres gyffredin o safonau ar gyfer nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a pharafeddygon, sy'n cael eu monitro drwy AGIC (nodir y safonau ar eu gwefan ac mae pob swydd newydd yn cael ei hystyried gan banel craffu).</p> <p><b><u>ii.</u></b></p> <p>Mae sicrhau gwell parhad / cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng yn ystod oriau/y tu allan i oriau a chael gwared ar y gwahaniaeth aciwt rhwng gofal wedi a heb ei drefnu yn faterion allweddol a nodir i'w cyflawni yn y fframwaith cyflenwi drafft <b><i>Drafft Gwella Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru: Dull Partneriaeth</i></b> a'r strategaeth „<b>Gosod y</b></p>	<p>Awst 2010</p> <p>Mehefin 2010</p>
-------------------------------------	---	--------------------------------------

	<p><b>Cyfeiriad</b>.</p> <p><b>iii.</b></p> <p>Mae disgwyl i bob sefydliad weithio tuag at gyflawni cynnydd o 10% yng nghyfran y staff sy'n darparu gwasanaethau yn y gymuned.</p> <p>Rhaid cytuno ar linell sylfaen i fesur cynnydd yn ôl y targed uchod.</p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu grŵp gorchwyl cenedlaethol i edrych ar gyfeiriad y gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cydweithwyr iechyd a bydd yn archwilio'r potensial a'r math o drefniadau i gefnogi staff iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol.</p> <p>Bydd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu yn cael ei hategu gan fwrdd rhaglen foderneiddio galluogi'r gweithlu. Ar sail y modelau gwasanaeth a nodir gan y grŵp gofal heb ei drefnu, bydd goblygiadau'r gweithlu yn cael sylw. Disgwylir y bydd angen cynyddu arferion gwaith hyblyg, gan gynnwys ymestyn gofal y tu allan i'r diwrnod gwaith craidd; ailfodelu'r gymysgedd sgiliau i sicrhau'r arbenigedd proffesiynol gorau posibl a bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael eu hyfforddi'n briodol i dderbyn dyletswyddau dirprwyedig; a datblygu rolau newydd ac estynedig.</p> <p>Byddwn yn cytuno ar amserlen y newidiadau fel rhan o'r cynlluniau gwasanaeth, gweithlu a chyllid 5 mlynedd fel y cytunir arnynt ar lefel leol</p> <p><b>iv.</b></p> <p>Galwodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad, gyfarfod o randdeiliaid allweddol ar 27 Mai 2010 o'r enw '<b>Gweithio mewn partneriaeth i wella darpariaeth gofal iechyd a chymdeithasol ar draws Cymru</b>' i fynd i'r afael ag adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru.</p> <p>Themâu'r gynhadledd oedd:-</p>	<p>2013</p> <p>Rhagfyr 2010</p> <p>Rhagfyr 2010</p> <p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	--	---

- |  |  |  |
|--|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li>○ Rôl strategol Galw lechyd Cymru a sut roedd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid</li><li>○ Sicrhau bod Galw lechyd yn perfformio cystal ac mor effeithlon â phosibl ledled Cymru</li><li>○ Rôl bosibl Galw lechyd Cymru o fewn y system gofal heb ei drefnu</li></ul> |  |
|--|--|--|

Bydd canlyniadau'r gynhadledd a thrafodaethau pellach yn sicrhau bod tryloywder o ran rôl bosibl Galw lechyd Cymru yn y dyfodol yn y system gofal heb ei drefnu.

<p>7. Gan weithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol, dylai'r byrddau iechyd newydd gynnal adolygiad sylfaenol o'u gweithlu gofal heb ei drefnu er mwyn sicrhau bod cydbwysedd rhesymol rhwng y cyflenwad a'r galw yn y gwasanaethau a'r sectorau amrywiol. Yn arbennig dylent:</p> <p><b>a</b> adolygu gweithgarwch a lefelau staffio yn eu prif arbenigeddau aciwt ac adrannau achosion brys gan ddefnyddio'r adnoddau archwilio a ddarperir yn fuan gan y Coleg Meddygaeth Frys ddiwygiedig yn y canllaw staffio;</p> <p><b>b</b> ystyried maint y gweithlu gofal sylfaenol a'r defnydd a wneir ohono yn y system i ategu gofal heb ei drefnu, er enghraifft lleoli meddygon teulu mewn adrannau achosion brys neu yn agos atynt;</p> <p><b>c</b> sicrhau bod argaeledd a phatrymau gwaith ymarferwyr nyrsio brys yn bodloni'r galw yn ddigonol;</p>	<p><b><u>7a – e</u></b></p> <p><b>Cyfrifoldeb y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yw cyflawni'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7a - e.</b></p> <p>Bydd Bwrdd Rhaglen Genedlaethol Moderneiddio'r Gweithlu yn gweithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod materion staffio yn cael eu cefnogi ar lefel genedlaethol.</p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy weithio mewn partneriaeth â BILlau, wedi datblygu'r gwaith hwn drwy ddarparu ystod ehangach o gymorth, e.e.</p> <p>xxviii. Ilunio offeryn modelu gallu a galw y gellir ei ddefnyddio gan BILI i ddadansoddi gweithgarwch galw yn ôl gallu, e.e. nifer y meddygon, nyrsys sydd ar gael. Mae'r offeryn wedi'i dreialu yn Hywel Dda a Threforys ac wedi bod yn llwyddiannus iawn gan ei fod wedi galluogi BILlau i nodi lle mae diffyg cydbwysedd rhwng y galw a gallu eu gweithlu. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phob BILI arall i gyflwyno'r offeryn hwn cyn cyhoeddi offeryn y Coleg Meddygaeth Frys.</p> <p>xxix. Ym mis Ebrill, roedd yn ofynnol i bob BILI nodi Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu.</p> <p>xxx. Roedd yn ofynnol i bob BILI lunio Cynlluniau Gweithlu ar gyfer 2010/2011 a oedd yn darparu ar gyfer gweithlu o faint priodol ac â'r sgiliau priodol ar draws maes gofal heb ei drefnu. Mae BILlau yn cael eu cefnogi gan Fwrdd Rhaglen Genedlaethol Moderneiddio'r Gweithlu i gyflawni'r cynlluniau hyn.</p> <p>xxxi. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn archwilio'r potensial i benodi Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu. Os cytunir ar hyn, bydd y swydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r angen am newid yn y maes clinigol ac am gefnogi clinigwyr a BILlau i nodi a gweithredu arferion gorau.</p> <p>xxxii. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu'r Uned Cyflenwi a Chymorth i gynorthwyo BILlau Aneurin Bevan, Hywel Dda, Abertawe Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro a Betsi Cadwalader i fodelu staff yn ôl galw a gallu yn eu hadrannau damweiniau ac achosion brys.</p>	<p>Mawrth 2010 (parhaus)</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Gorffennaf 2010</p> <p>Mehefin 2010 - parhaus</p> <p>Cwblhawyd</p>
---	---	---

<p><b>d</b> ystyried cynyddu lefelau staff nyrsio lle mae'r pwysau ar adrannau achosion brys yn aml yn arwain at ymarferwyr nyrsio yn gorfod cyflawni rolau nyrsio craidd;</p> <p><b>e</b> cyflwyno gweithwyr proffesiynol arweiniol ar gyfer gofal heb ei drefnu i weithredu fel arweinydd mewn enw a phwynt cyswllt o ran ymgysylltu â'r gweithwyr proffesiynol yn eu maes. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd ni fydd modd newid heb gefnogaeth y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system. Rhaid i weithwyr proffesiynol arweiniol gwmpasu'r system gyfan gan gynnwys yr holl broffesiynau sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal heb ei drefnu mewn ffyrdd newydd.</p>	<p>Mae hefyd nifer o enghreifftiau sy'n arddangos y cynnydd sydd wedi'i wneud gan BILI wrth roi'r argymhellion ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae BILI Caerdydd a'r Fro wedi penodi Cyfarwyddwr Gofal Heb ei Drefnu a Rheolwr Gweithredol ar gyfer yr Uned Frys i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol a gweithredol a darparu gwasanaethau.</li> <li>• Mae BILI Caerdydd a'r Fro wedi neilltuo'r gwasanaeth Ymarferwyr Nyrsio Brys i ategu'r gwasanaeth Mân anafiadau</li> <li>• Mae BILI(D) Powys wedi penodi arweiniwyd gofal heb ei drefnu ar gyfer ardaloedd. Maent yn cynnwys Prif Feddyg Teulu, Prif Nyrs a Phrif Therapydd ar gyfer pob ardal.</li> <li>• Mae Unedau Mân Anafiadau BILI Cwm Taf yn cael eu harwain gan Ymarferwyr Nyrsio Brys ac mae'r staffio yn cyfateb i'r galw.</li> <li>• Mae meddygon teulu yn darparu gwasanaeth y Tu Allan i Oriau yn holl safleoedd aciwt BILI PABM.</li> <li>• Cynhaliodd BILI AB Fodel Meddygol Damweiniau ac Achosion Brys i archwilio strategaethau recriwtio dros dro tra'n gweithio tuag at Fodel Meddygol newydd, ac mae cynlluniau gweithlu yn cael eu datblygu.</li> </ul> <p>Hefyd, mae Fferylliaeth Gymunedol o fewn rhanbarth BILI AB wedi datblygu 7 gwasanaeth uwch:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Atal cenhedlu hormonaidd brys</li> <li>▪ Defnyddio methadon dan oruchwyliaeth</li> <li>▪ Cynllun lleihau gwastraff</li> <li>▪ Cyfnewid nodwyddau</li> <li>▪ Rota gofal lliniarol</li> <li>▪ Rota y tu allan i oriau</li> </ul>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
---	--	--



	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Rhoi'r gorau i ysmegu</li> </ul> <p>Bydd penodi Hyrwyddwyr Clinigol ar draws gwasanaethau clinigol, h.y. Hyrwyddwr Clinigol Diabetes, yn cynorthwyo i ddatblygu llwybrau gofal a lleihau'r galw am ofal heb ei drefnu.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Model Arweinyddiaeth Glinigol wedi'i ddyfeisio gan BILIAB a'i gynnwys yn strwythurau newydd y Bwrdd. Mae Cyfarwyddwyr yr is-adrannau bellach yn arwain yr Is-adrannau Gofal Heb ei Drefnu a Gwasanaethau Cymunedol. Mae Is-adrannau Gofal Heb ei Drefnu y Bwrdd lechyd yn gweithredu strwythur ar ei newydd wedd a fydd yn nodi grwpiau meddyginiaeth frys a gwasanaethau meddygol aciwt; bydd y rhain yn cael eu harwain yn glinigol.</li> <li>• Mae BILIPBC wedi adolygu lefelau gweithgarwch a staff mewn adrannau brys ac arbenigeddau aciwt mawr fel rhan o waith Strategaeth Glinigol Gogledd Cymru.</li> <li>• Hefyd, mae'r sefydliad nyrsio yn cael ei adolygu yn BILIPBC gan Bennaeth Nyrsio y Grŵp Rhaglen Glinigol.</li> </ul>	<p>Mehefin 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Mehefin 2010</p>
--	--	--

<p><b>8. Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad:</b></p> <p><b>a</b> Sicrhau bod y mesurau a ddatblygir ganddi ar hyn o bryd yn ymgorffori safbwynt system ehangach a sicrhau eu bod:</p> <p><b>i</b> yn seiliedig ar archwiliad cynhwysfawr o'r galw am wasanaethau gofal heb ei drefnu;</p> <p><b>ii</b> yn cydbwysio mynediad, ansawdd a chanlyniadau gan gydnabod yn arbennig yr angen i osgoi rheoli gwasanaethau clinigol gan gyfeirio at yr amser y mae achos o ddarparu gofal yn ei gymryd heb gyfeirio at ei ansawdd na'r canlyniad i'r dinesydd;</p> <p><b>iii</b> yn cynnwys mesurau o berfformiad gwasanaethau iechyd a mesurau sy'n berthnasol i wasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus, yn enwedig y rhai a ddarperir neu a gomisiynir gan awdurdodau lleol.</p> <p><b>b</b> Sicrhau bod ei fframwaith rheoli perfformiad yn ddigon hyblyg i ystyried,</p>	<p><b>8a (i-iii)</b></p> <p>Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>sefydlu Rhaglen Genedlaethol o waith i ddatblygu ystod o Dargedau Deallus ar gyfer gofal heb ei drefnu. Ei nod yw nodi ystod ehangach o fesurau perfformiad sy'n ymwneud â mewnbwn, trwybwn, allbwn; gyda ffocws penodol ar nodi nifer fechan o fesurau canlyniadau ar gyfer gofal heb ei drefnu. Mae'r rhaglen yn datblygu'n dda ac mae cyfres ddrafft o fesurau perfformiad wedi'u llunio. Bwriedir cynnal cyfarfod pellach o'r Gweithgor Craidd ym mis Mai 2010 lle bwriedir eu mireinio yn barod ar gyfer eu treialu yn ystod yr haf.</li> <li>datblygu dangosfwrdd gofal heb ei drefnu, ar sail y dangosfwrdd fflw pandemig llwyddiannus sy'n dangos ystod o wybodaeth am alw a gallu amser real, e.e. presenoldeb unedau damweiniau ac achosion brys, Cleifion sydd wedi cael eu gweld o fewn 4 awr, Ymgynghoriadau cyfraddau resbiradol y tu allan i oriau, dangosydd statws Gofal Critigol. Mae'r wybodaeth ar gael ar y rhyngwrdd i'r GIG, gyda datblygiadau pellach ar y gweill yn ystod y misoedd nesaf. Bydd gwybodaeth am y dangosfwrdd a dolen iddo'n cael ei ddosbarthu gan Lywodraeth y Cynulliad erbyn diwedd Mai 2010, a disgwylir i'r GIG ei ddefnyddio'n eang.</li> <li>nodi ystod o fesurau Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant Cenedlaethol ar gyfer 2010/2011 y mae'n rhaid i'r GIG eu cyflawni. Mae'r mesurau yn cynnwys amrywiaeth o ddimensiynau ansawdd, e.e. mae cyfraddau aildderbyn i unedau damweiniau ac achosion brys yn darparu dangosydd effeithlonrwydd, effeithiolrwydd clinigol, diogelwch cleifion a phrofiad ac effeithlonrwydd cyffredinol y systemau gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu.</li> <li>sefydlu Gweithgor i ddatblygu Fframwaith Gwella Perfformiad ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu. Mae'r grŵp wedi llunio fframwaith drafft ac wedi nodi cyfres o ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys mynediad, y bydd y BILlau yn atebol i Lywodraeth y Cynulliad amdanynt. Y nod yw mynnu bod pob BILl yn llunio adroddiad blynyddol ym mis Rhagfyr 2010, sy'n cynnwys nifer o ddangosyddion ehangach o ansawdd y gofal a ddarperir gan y system, e.e.</li> </ul>	<p>Tachwedd 2010</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Rhafgyr 2010</p>
---	---	--

<p>ochr yn ochr â dangosyddion cenedlaethol, ddulliau allweddol sefydliadau lleol eu hunain o fesur gwelliannau tymor hwy yn y system.</p>	<p>mynediad i apwyntiadau, cyfraddau imiwneiddio, cwmpas y sgrinio sy'n digwydd, archwiliadau pwysau gwaed ar gyfer cleifion gyda chlefyd coronaidd y galon, cofrestri strôc ac ati.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mesur cenedlaethol o'r integreiddio a geir mewn gwasanaethau yn ei Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer y 7 mlynedd ddiwethaf:- Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, sy'n ei gwneud yn ofynnol i BILlau gydweithio ag Awdurdodau Lleol er mwyn cyflawni'r nod.</li> <li>• dechrau'r gwaith o ddatblygu cytundebau canlyniadau Awdurdodau Lleol lle bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol ddisgrifio a darparu tystiolaeth o'r cyfraniad y maent hwy ac asiantaethau eraill (gan gynnwys y GIG) yn ei wneud at gyfres o ganlyniadau y cytunir arnynt. Un o'r nodau yw chwalu rhaniadau rhwng darparwyr gwasanaethau, a chanolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau, sut bynnag y'u darperir. Disgwylir i'r 22 awdurdod lleol fod â chytundebau ar waith erbyn diwedd mis Medi 2010. Bydd y cytundebau yn para am 3 blynedd (tan ddiwedd 2012/13) gyda cherrig milltir ac adrodd blynyddol.</li> </ul> <p><b>8 b</b> Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu perfformiad trosglwyddo cleifion ac yn pennu'r camau nesaf pan fo gwasanaeth o ansawdd uchel wedi'i gyflawni ac yn gynaliadwy.</p> <p>Wrth i lai ddefnyddio'r system HAS ledled Cymru yn ystod y gaeaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru gynnal archwiliad dilysu data yn adrannau damweiniau ac achosion brys Treforys, Ysbyty Athrofaol Cymru a Maelor Wrecsam i sicrhau bod y systemau'n gweithredu'n effeithiol.</p> <p>Yn dilyn yr archwiliadau, ail-ffurfiodd Llywodraeth y Cynulliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trosglwyddo Cenedlaethol i adolygu'r canfyddiadau - a gadarnhaodd bod y system yn gadarn iawn - gyda chynrychiolwyr o bob safle damweiniau ac achosion brys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Yn dilyn Menter Gwella Ansawdd Data yn gynnar ym mis Ebrill, lle gweithredodd Ymddiriedolaeth GIG</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Medi 2010</p> <p>Rhagfyr 2010</p>
--	---	---

Gwasanaethau Ambiwylans Cymru nifer o welliannau i'r meddalwedd, mae mwy yn defnyddio'r system HAS. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth yn ddyddiol i gyflawni hynny. Mae'r mater yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

**8 c**

Mae Fframwaith Gwella Perfformiad y GIG yn ddigon hyblyg i alluogi sefydliadau'r GIG i ddatblygu mesurau perfformiad lleol sy'n benodol ar gyfer eu cyd-destun a'u hanghenion lleol; y tu hwnt i ystod y targedau a'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol. Mae hyn yn cael ei amlygu gan y ffaith bod gan bob sefydliad y GIG ystod eang o fesurau lleol y tu hwnt i'r rhai a orchmynnir yn genedlaethol.

Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau a gwaith datblygu wrth i Fframwaith Gwella Perfformiad y GIG ddatblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Cwblhawyd –  
Adolygiad ar y  
gweill  
Tachwedd  
2010